

MWY NAG ADEILAD ...

Roedd Morlan yn ddeg oed ym mis Ebrill 2015. I nodi'r achlysur penderfynwyd trefnu deg o ddigwyddiadau dros ddeg mis i ddangos gwahanol agweddau ar waith y ganolfan; y nawfed o'r Deg dros Ddeg oedd arddangosfa o gelf a barddoniaeth ar y thema *Mwy nag Adeilad ...*



Fel cyflwyniad i'r arddangosfa, bu Pryderi Llwyd Jones, Cyn-weinidog Capel y Morfa – ble mae gwreiddiau Morlan – yn olrhain ychydig o gefndir sefydlu Morlan ac yn ein hatgoffa am wir bwrpas y ganolfan.

Mae pob dyddiad yn gamarweiniol. Deng mlynedd ers dechrau'r Morlan? Fe fu blynyddoedd o'r arafwch arferol – y caniatâd, y cynllunio, yr ail-gynllunio, yr ariannu – ond yr oedd rhai pethau calonogol yn y cyfnod hwnnw o 10 mlynedd (arall) hefyd. Un oedd i'r Blaenoriaid a'r eglwys wrthod y temptiad o werthu'r darn tir ple bu Capel Seilo a Neuadd Beth-seilun (er y byddai un neu ddau wedi ffafrio hynny) a dewis yn hytrach ffordd fwy mentrus a gobeithiol. Bu ystyriaeth i dair math o ganolfan: un dewis oedd parhau a datblygu y *Ganolfan Ieuencid* oedd yno eisoes (wedi cyfnod mentrus ac arloesol o ddatblygu gweithgarwch yr eglwysi Presbyteriadd yn y dref); *Canolfan Cyfiawnder a Heddwch* oedd y dewis arall; y trydedd dewis a ddewiswyd, sef *Canolfan Ffydd a Diwylliant*, gan wybod y byddai canolfan felly yn cynnwys y pwyslais oedd yn y dau ddewis arall. Ond gan wybod hefyd na fyddai pwrpas canolfan o'r fath yn ystyrlon, heb i hynny gael ei egluro tros gyfnod o baratoi. A dyna pam y bu amryw o weithgareddau arbennig yn y blynyddoedd cyn 2005.

PARATOI

Bu cynhadledd i lansio'r paratoi yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, gyda gwahoddiad yn mynd i bob eglwys a sefydliad yn y dref. Donald Smith oedd y gŵr gwadd, sef Cyfarwyddwr Canolfan Netherbow yng Nghaeredin, canolfan 'yr eglwys a'r celfyddydau' a sefydlwyd yr un pryd â Gŵyl Gaeredin yn union ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Fel yr ŵyl mae'r Netherbow yno o hyd yng nghanol bwrlwm y ddinas honno. Cefais wahoddiad i dreulio ychydig amser yno a dyna a wneuthum am ddeuddydd ym Mai 1996.

Gwahoddwyd Cyfarwyddwr Canolfan Colliers, Manceinion i'n cyfarfod yn Nhrefeca, ger Aberhonddu. Canolfan a sefydlwyd gan yr Eglwys Fethodistaidd oedd honno yn y Central Hall, a oedd wedi ei sefydlu ar batrwm clwb nos. Aeth nifer ohonom hefyd i ymweld â'r ganolfan yn Manceinion.

Bu arddangosfa drawiadol a chofiadwy iawn o ddarluniau ar y thema *Pobl y Pasg* gan yr arlunydd Emma Evans-Fairbank o Henffordd a fu'n gyfrwng i gyfoethogi'r Pasg yn 1995.

Yn ogystal â hynny gwahoddwyd nifer o bobl i ymweld â ni a fyddai'n agor drysau a meddyliau i genhadaeth yr eglwys yn codi pontydd a chreu lle agored rhwng yr eglwys a'r gymuned a'n diwylliant cyfoes. Ymysg y rhai a ddaeth atom oedd John Bell (ar ddau achlysur) o Gymuned Iona i'n herio i ystyried beth yw byw ac addoli 'ar y ffin' ac i ddaearu ein ffydd a'n cred ym mywyd y gymuned o'n cwmpas. Cawsom hefyd gwmni cofiadwy Irina Ratushinskaya, y bardd o Rwsia (awdur y gyfrol *Grey is the colour of hope*) a

garcharwyd am dair blynedd am iddi, fel Cristion, feirniadu yr awdurdodau Sofietaidd. Mae nifer o enwau eraill fel Hywel Teifi, Dafydd Iwan, Emyr Lewis a'r diwinydd Frances Young, awdur *Face to Face*, sydd yn ymdriniaeth gyfoethog o ddiodefaint a hynny trwy ei phrofiad yn magu plentyn gydag anabledd mawr.

Yn y cyfnod hwnnw roedd Cymdeithas y Beibl yn cyhoeddi cylchgrawn o'r enw *Bible in transmission: a forum for change in church and culture*, ac aeth rhai ohonom i Landrindod i gyfarfod un o olygyddion y cylchgrawn i godi'r posibilrwydd o ganolfan fel Morlan fod yn rhan o rwydwaith o ganolfannau tebyg gyda chyfraniad a chefnogaeth i gylchgrawn o'r fath ac i waith Cymdeithas y Beibl.

Yn y cyfnod hwn o baratoi fe gynhaliwyd dwy wyl undydd hefyd, gyda chyfle i bob oed fod yn rhan o weithdai cerdd, crefft, drama, dawn, ac yn y blaen, a'r ddwy wyl fel ei gilydd (mewn gwahanol leoliadau) yn cyrraedd uchafbwynt gydag addoliad lliwgar ar thema'r wyl.

Y bwriad yn y gweithgareddau hyn i gyd oedd i hau had ac i osod sylfeini ar gyfer Canolfan Morlan.

POBL WEITHGAR

Rwyf wedi sôn am y 'deg cyn y deg'! Ni fyddai deg i'w gofio, onibai am y deg o baratoi. Ac ni fyddai deg o baratoi onibai am nifer o ffactorau. Y mwyaf yn ddi-os oedd ymrwymiad y rhai a dreuliodd flynyddoedd yn pwyllgora, yn trafod a gweithredu. Nid pawb a gafodd eu goleuo na'u hargyhoeddi o genhadaeth a phartneriaeth yr eglwys trwy Morlan – a Morlan yn estyniad gwahanol a mentrus o fywyd a chenhadaeth Capel y Morfa. Nid pawb, oherwydd, ers cenedlaethau erbyn hyn, lle i fynd yno (neu, wrth gwrs, i beidio mynd yno) i addoli yw eglwys, lle i wrando ar bregethau a chanu emynau. Nid beirniadaeth yw dweud hynny, ond cydnabod mai felly y mae llawer wedi meddwl erioed. Meddwl gwahanol sydd i Morlan a dyna pam mae angen gwerthfawrogi y rhai a roddodd cymaint o'u hamser a'u doniau i osod sylfeini'r ganolfan. Er nad oes gan lawer ohonynt 'swyddi' yn Morlan erbyn hyn (ac wedi bod yn falch o roi lle i weithwyr newydd) mae eu calon a'u cefnogaeth yn gant y cant. Bu eu cyfraniad yn ymrwymiad ac yn lafur mawr.

HAELIONI

Rhaid son am y sylfeini ariannol a oedd hefyd yn gofyn am haelioni ac ymrwymiad. Ac fe'i cafwyd. Daeth rhoddion hael a chyson gan nifer o aelodau Capel y Morfa ac eraill, oedd yn ddigon ifanc eu hysbryd a dwfn eu hysbrydolrwydd i wybod fod yn rhaid i'r eglwys wynebu her ein hoes drwy fentro ar ddulliau, cyfryngau a phatrymau gwahanol a hyblyg o fod yn eglwys ac o rannu'r efengyl.

Mae angen sôn am geiniogau prin y bobl gyffredin a adeiladodd ein capeli mewn oes a fu (ac, yn achos Aberystwyth, y nifer fawr o ganghennau i'r capeli) ond nid ar draul anghofio yr ymrwymiad maith i addasu hen neuadd/festri i ofynion oes wahanol. Ymateb a chefnogi ymdrechion aelodau Capel y Morfa a wnaeth y Cyngor Cenhadol Byd (CWM) wrth gefnogi datblygu Canolfan Morlan gyda grant sylweddol.

YSTAFELL DAWEL

Ac mae dau beth arall i'w gofio. Roedd angen llawer iawn o adnoddau ar gyfer canolfan fel Morlan, ond dim pwysicach na'r Ystafell Dawel. Mae mor bwysig i'r Morlan â'r pulpudau yn eglwys i'r dref. Ac y mae o fewn dau gam i'r swyddfa. Myfyrio ar y Gair, ymglywed â'r Gair, rhannu, ymdawelu, gweddio. Hanfod ffydd a chred. Yn anffodus (oherwydd gofynion diogelwch, mae'n debyg) mae'r ystafell yn llai nag ydoedd yn wreiddiol, ond mae'n parhau'n ganolog. O'r ystafell hon y mae Morlan yn llifo ac yn dychwelyd yn barhaus yn ei holl weithgarwch: yn pontio, yn cydio, yn cynllunio, yn curo fel curiad calon. Nid i bawb sydd yn defnyddio'r ganolfan, wrth gwrs, ond i'r rhai sydd â'u calon yng nghalon Morlan.

Fe luniwyd 'Datganiad Cenhadol' sydd mor bwysig i ganolfan ac eglwys ag ydyw bellach i M&S ac Aldi a Waitrose sydd, fel pob sefydliad, yn mynnu cael datganiad o'r fath fel bod pawb sydd ynglŷn â'r gwaith yn gwybod i ba gyfeiriad y maent yn mynd.

Credwn fod Arglwyddiaeth Crist ar fyd a bywyd yn ein galluogi ac yn ein cymell i ymwneud â phob agwedd o fywyd ein cymdeithas, ein cenedl a'n byd. Credwn na allwn gyfyngu ei Arglwyddiaeth i eglwys na thraddodiad a'i fod yn ein gwahodd i'w ddarganfod ar waith yng nghanol ein diwylliant cyfoes – yn ein hwynebu a her yr Efengyl, yn ein bendithio yn ein tystiolaeth, ac yn ein galluogi i fwynhau a defnyddio ein doniau creadigol.

DATHLU DEG

Nid wyf wedi sôn am gyffro'r agoriad swyddogol ar Sadwrn, 23 Ebrill 2005 (gyda rhaglen wythnos gyfan) nac am gyffro'r dair blynedd gyntaf. Ond rwyf yn falch o gyfeirio a diolch at y bywyd, y tŵf a'r aeddfedu **ers 2008**, blwyddyn fy ymddeoliad. Mae Carol Jenkins, wedi saith mlynedd o wasanaeth, wedi dod â sefydlogrwydd i'r swyddfa a'r gweinyddu, a hynny yn hanfodol i'r llwyddiant.

Nid yw'n hawdd cynnal bywyd Morlan ac anelu ar yr un pryd i fod mor hunan-gynhaliol ag sydd bosibl – er nad oes unrhyw eglwys na chanolfan yn gwbl hunan-gynhaliol, wrth gwrs. Ar adegau mae llawer o bwyso ar yr ychydig ffyddlon o wirfoddolwyr, fel mewn llawer maes arall. Ond er hyn i gyd mae'n amlwg fod yna dîm sydd mewn cytgord llwyr â Morlan fel Canolfan Ffydd a Diwylliant. Mae cymaint i'w ddathlu yn ddeg oed, a llongyfarchiadau am raglen mor ddiddorol a gwreiddiol i wneud hynny – a gobeithio y bydd penblwyddi cyffrous i'w dathlu eto.

Pryderi Llwyd Jones